**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 28 Mehefin 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Rhys Thomas |
| **2** | PENODI CADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid penodi'r Cynghorydd Hugh Irving fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.* |
| **3** | PENODI IS-GADEIRYDD | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid penodi'r Cynghorydd Alan James fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.* |
| **4** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Datganodd y Cynghorwyr Joan Butterfield, Alan James, Brian Jones, Barry Mellor a Tony Thomas fuddiant personol yn Eitem 12 ar y Rhaglen – Cais am Adnewyddu Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. |
| **5** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **6** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017 a 5 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.* |
| **7** | ADOLYGU – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad o Egwyddorion drafft y Cyngor (Deddf Gamblo 2005) sydd wedi'i atodi i'r adroddiad ar gyfer ymgynghori statudol.* |
| **8** | ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIADAU RHYW | ***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad a bod y terfynau amser ynddo ynglŷn â chreu Polisi Sefydliad Rhyw drafft diwygiedig yn cael eu cymeradwyo.* |
| **9** | ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD | ***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad ac awdurdodi swyddogion i barhau i weithio ar y Polisi Masnachu ar y Stryd drafft, gyda fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor i'w hystyried.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 28 Mehefin 2017**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **10** | RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ynghyd â diwygiadau arfaethedig fel y manylir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.* |
| **11** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 517116 | ***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 517116.* |
| **12** | ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 518819 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 518819 yn cael ei ganiatáu, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei euogfarnau moduro a'i ymddygiad yn y dyfodol.* |
| **13** | GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT (1) | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded a sticeri drws cerbydau hurio preifat ar gyfer y ddau gerbyd fel y manylir yn yr adroddiad, yn ddarostyngedig i'r amodau (tynnu amod 9) fel y manylir yn Atodiad C yr adroddiad.* |
| **14** | GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT (2) | Cafodd yr eitem hon ei thynnu o'r rhaglen. |